

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL  
CYMRU  
GORCHYMYN PRYNU GORFODOL  
(CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R  
DE O BENBEDW (A494) GWELLIANT  
DROME CORNER I EWLOE) 200-**

**PRYNU TIR YN ORFODOL A HAWLIAU  
NEWYDD RHWNG DROME CORNER  
AC EWLOE, SIR Y FFLINT**

**HYSBYSIR DRWY HYN** bod y Gweinidog dros Arloesi, Menter a Rhwydweithiau, yn gweithredu ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi paratoi mewn drafft Gorchymyn Prynu Gorfodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cefnffordd Dolgellau i fan i'r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe) 200-, o dan adrannau 239, 240 a 246 o Ddeddf Priffyrdd 1980 fel yr estynwyd ac ategwyd gan adran 250 o'r Ddeddf honno ac o dan adran 2 o, a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981. Mae ar fin gwneud y Gorchymyn hwn ac os y'i gwneir bydd y Gorchymyn yn awdurdodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir isod at bwrpas: -

- (a) adeiladu'r gefnffordd gysylltu newydd a ffordd ymuno rhwng Cyfnewidfa Ewloe ac i'r gorllewin o Gyfnewidfa Dewi Sant yng nghymuned Hawarden, a lledu a gwella pont dros gwrs dŵr mordwyol rhwng Queensferry a Garden City yng nghymuned West Saltney, i gyd yn Sir y Fflint, mewn cysylltiad â gwella'r gefnffordd ac yn unol â'r Gorchymyn Ffordd Gysylltu a Ffordd Ymuno Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe);
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynediadau newydd i eiddo rhwng Drome Corner ac Ewloe yng nghymunedau Penarlâg a West Saltney yn Sir y Fflint yn unol â'r â'r Gorchymyn Cilffyrdd Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe);

- (c) gwella'r Gefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw yn y cymunedau a'r Sir rhagddywededig;
- (d) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad â gwella'r gefnffordd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gweithredu gwaith arall a grybwyllir uchod;
- (e) cael eu defnyddio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â gwella'r briffordd a gweithredu gwaith arall a grybwyllir uchod; a
- (f) lliniaru'r effeithiau andwyol y bydd y priffyrdd neu'r priffyrdd arfaethedig yn eu cael ar eu cyffiniau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r map cysylltiol ar bob adeg resymol o 5 Ionawr 2007 i 16 Chwefror 2007 yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Is-adran 3 Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn, Swyddfeydd Adran Priffyrdd, Cludiant, Peirianneg Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NB, Swyddfa Brosiect yr A494, 4 Bridge Houses, Queensferry, Sir y Fflint CH5 1SA a Llyfrgell Queensferry, Campws Queensferry, Queensferry, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint CH5 1SA.

Rhaid i unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn fod mewn ysgrifen a'i anfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Is-adran 3 Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ cyn 16 Chwefror 2007 a dylid nodi enw'r Gorchymyn, y cyfeirnod BZ 910192-312-1, sail y gwrthwynebiad a chyfeiriad y gwrthwynebydd a'i fuddiannau yn y tir. Wrth baratoi gwrthwynebiad a datganiad am sail y gwrthwynebiad dylid cadw mewn cof y gall sylwedd unrhyw wrthwynebiad neu sylw gael ei ddatgelu i bobl eraill a all gael eu heffeithio ganddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft a'r Hysbysiad yn [www.wales.gov.uk/index.htm](http://www.wales.gov.uk/index.htm) (detholer 'Llywodraeth Cynulliad Cymru, Deddfwriaeth,

Deddfwriaeth Ddrafft, Offerynnau Anstatudol,  
Gorchymynion Prynu Gorfodol Deddf  
Priffyrdd’).

Gellir cael copi print brasach o’r Hysbysiad  
hwn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru,  
Trafnidiaeth Cymru, Is-adran 3 Cynllunio a  
Gweinyddu Trafnidiaeth, Parc Cathays,  
Caerdydd CF10 3NQ.

## **DISGRIFIAD O’R TIR A’R HAWLIAU NEWYDD**

### **SYLWER**

- a. nodir y tir a gynhwysir ym mhob eitem  
isod ar y map y cyfeirir ato yn y  
Gorchymyn drafft trwy gyfrwng rhif neu  
rifau yn erbyn yr eitem honno isod.
- b. mae cyfeiriadau at berchenogaeth yn  
gyfeiriadau at berchenogaeth neu  
berchenogaeth dybiedig adeg paratoi’r  
Gorchymyn drafft ac fe’u rhoddir er mwyn  
nodi’r tir yn unig.

### **Yng Nghymuned Penarlâg**

Pob buddiant ac eithrio’r rhannau sy’n eiddo i  
Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn:  
y gefnffordd bresennol (A494); coetir glaswellt  
i’r gorllewin o’r gefnffordd bresennol gan  
gynnwys rhan o’r ffordd ymuno, y bont bwysio  
ac Old Mold Road rhwng Cyfnewidfa Ewloe  
Interchange a Chyfnewidfa Parc Dewi Sant;  
darn glaswellt i’r gorllewin o’r gefnffordd  
bresennol gan gynnwys rhan o lwybr troed  
FP120; y gefnffordd bresennol i’r gogledd o  
Gyfnewidfa Parc Dewi Sant ac i’r de i  
reilffordd Wrecsam – Bidston; tir pori a llwybr  
cyhoeddus FP25 i’r gorllewin o’r gefnffordd  
bresennol rhwng Cyfnewidfa Parc Dewi Sant a  
rheilffordd Wrecsam – Bidston; y gefnffordd  
bresennol gan gynnwys tanlwybr Aston Mead a  
grisiau i’r gogledd i reilffordd Wrecsam -  
Bidston a’r llain sy’n rhan o gyffordd priffyrdd  
y Sir a elwir yn Old Aston Hill ac Aston Hill;  
y byngalo a gardd a elwir yn Rhif 11a Hillfield  
Road a rhan o hanner lled Hillfield Road sydd  
o flaen yr eiddo; y byngalo a gardd a elwir yn  
Rhif 11 Hillfield Road a rhan o hanner lled  
Hillfield Road sydd o flaen yr eiddo; y byngalo  
a gardd a elwir yn Rhif 9 Hillfield Road a rhan  
o hanner lled Hillfield Road sydd o flaen yr

eiddo; y byngalo a gardd a elwir yn Rhif 7 Hillfield Road a rhan o hanner lled Hillfield Road sydd o flaen yr eiddo; y byngalo a gardd a elwir yn Rhif 5 Hillfield Road a rhan o hanner lled Hillfield Road sydd o flaen yr eiddo; yr eiddo a elwir yn Rhif 3 Hillfield Road a rhan o hanner lled Hillfield Road sydd o flaen yr eiddo; y darn glaswelltog i'r dwyrain o'r gefnffordd ac i'r gogledd o reilffordd Wrecsam - Bidston, rhan o hanner lled Mountfield Road a Hillfield Road sydd o flaen y safle; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 20 Mountfield Road a rhan o hanner lled Mountfield Road sydd o flaen yr eiddo; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 18 Mountfield Road a rhan o hanner lled Mountfield Road sydd o flaen yr eiddo; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 16 Mountfield Road a rhan o hanner lled Mountfield Road sydd o flaen yr eiddo; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 38 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 34 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 31 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 32 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 30 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 37 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 29 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 28 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 36 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 35 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 27 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 26 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 24 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 13 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 23 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 14 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 22 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 21 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 15 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 16 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 19 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 18 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 12 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 11 Aston Mead; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 6 Lower Aston Hall Lane a rhan o hanner lled Lower Aston Hall Lane sydd o flaen yr eiddo; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 8 Lower Aston Hall Lane a rhan o hanner lled Lower Aston Hall Lane sydd o flaen yr eiddo; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 2 Lower Aston Hall Lane a rhan o hanner lled Lower Aston Hall Lane sydd o flaen yr eiddo; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 4 Lower Aston Hall Lane a rhan o hanner lled Lower Aston Hall Lane sydd o flaen yr eiddo; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 12 Lower Aston

Hall Lane a rhan o hanner lled Lower Aston  
Hall Lane sydd o flaen yr eiddo; y tŷ a gardd a  
elwir yn Rhif 14 Lower Aston Hall Lane a rhan  
o hanner lled Lower Aston Hall Lane sydd o  
flaen yr eiddo; y tŷ a gardd a elwir yn Rhif 16  
Lower Aston Hall Lane a rhan o hanner lled  
Lower Aston Hall Lane sydd o flaen yr eiddo;  
y gefnffordd i'r gogledd ac i'r de o gyffordd  
Plough Lane gan gynnwys troedbont a grisiau  
Chevron Road, hefyd arglawdd y briffordd,  
coetir a lleiniau presennol i gyd yn ffurfio rhan  
o Lower Aston Hall Lane a Plough Lane i'r  
dwyrain o Gyffordd Plough Lane, ffordd  
gwasanaeth ac Aston Road, a'r lleiniau rhwng  
Heatherdene a South Bank West; y gefnffordd  
i'r de orllewin o Gyfnewidfa Queensferry a hen  
safle yn Boswell Farm, ffordd bengaead oddi ar  
Gladstone Way, troetffyrdd, lleiniau ac  
ardaloedd wedi eu tirlunio; (Plotiau 1/1, 1/1a,  
1/1b, 1/1c, 2/1, 2/1a, 2/1b, 2/1c, 2/1d, 2/1e,  
2/1f, 2/1g, 2/1h, 2/1i, 3/2, 3/2a, 3/2b,  
3/2c, 3/2d, 3/2e, 3/2f, 3/2g, 3/2h, 3/2i, 3/2j,  
3/2k, 3/2l, 3/2m, 3/2n, 3/2o, 3/2p, 3/2q, 3/2r,  
3/2s, 3/2t, 3/2u, 3/2v, 3/2w, 3/2x, 3/2y, 3/2z,  
3/2aa, 3/2ab, 3/2ac, 3/2ad, 3/2ae, 3/2af,  
3/2ag, 4/1 a 5/1).

Ardal laswelltog ar ochr orllewinol y  
gefnffordd ac i'r gogledd o droedbont Ewloe;  
ardal laswelltog ar ochr orllewinol y  
gefnffordd, wrth ymyl llwybr troed FP121;  
ardal laswelltog ar ochr orllewinol y gefnffordd  
ac i'r gogledd orllewin o droedbont Ewloe; i  
gyd yn eiddo i Mr. W. Reynolds (Plotiau 1/2,  
1/2a ac 1/2b).

Ardal laswelltog ar ochr ddwyreiniol y  
gefnffordd ac ardal laswelltog o dan y  
droedbont, i'r gogledd o Lakeside Business  
Village wrth ymyl ffordd bengaead oddi ar  
Barc Dewi Sant; i gyd yn eiddo i Redrow  
Homes North West Ltd (Plot 1/3)

Ardal laswelltog ar ochr orllewinol y  
gefnffordd ac ar ochr ddwyreiniol y llwybr  
troed FP122; ardal laswelltog i'r gorllewin o'r  
gefnffordd ac i'r dwyrain o'r ffordd sy'n  
cynnwys cyfleuster pont bwysu; i gyd yn eiddo  
i Mr. G. R. Hewitt (Plotiau 1/4 ac 1/4a)

Tir prysg glaswelltog a mynedfa breifat yn  
arwain i Gae OS Rhif 7792 ar ochr ogleddol  
Cyfnewidfa Parc Dewi Sant rhwng y ffordd  
ymuno tua'r gogledd a chefn yr eiddo ar

Liverpool Close; glaswelltir ar ochr orllewinol yr A494 rhwng pwynt 80m i'r gogledd o Gyfnewidfa Parc Dewi Sant ar bwynt ar lwybr troed FP25, 130m i'r de o reilffordd Wrecsam – Bidston; glaswelltir or ochr ogleddol Cyfnewidfa Parc Dewi Sant rhwng y ffordd ymuno tua'r gogledd o'r gyffordd a chefn eiddo ar Liverpool Road a St David's Close; rhan o Gae OS Rhif 7792; glaswelltir ar ochr orllewinol yr A494, rhan o Gae OS Rhif 7792 a glaswelltir ar ochr orllewinol yr A494 i'r de o lwybr troed FP25, rhan o Gae OS Rhif 7792; i gyd yn eiddo i Mr. J. Griffith (Plotiau 1/5, 2/2, 2/2a, 2/2b, 2/2c a 2/2d).

Glaswelltir ar ochr orllewinol y gefnffordd 260m i'r gogledd o Gyfnewidfa Parc Dewi Sant, rhan o Gae OS Rhif 0088, glaswelltir ar ochr orllewinol y gefnffordd 270m i'r gogledd o Gyfnewidfa Parc Dewi Sant rhan o Gae OS Rhif 0088; i gyd yn eiddo i Ymddiriedolaeth John Evans dan ofal Higham & Co; Mrs. K. Millington (Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth John Evans) (Plotiau 2/3, 2/3a a 2/3b).

Tir prysg gan gynnwys llwybr ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd rhwng Cyfnewidfa Parc Dewi Sant a rheilffordd Wrecsam – Bidston, rhan o Gae OS Rhif 3082; i gyd yn eiddo i W. Somerset (Plotiau 2/4, 2/4a a 2/4b).

Tir pori ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd ac i'r de o reilffordd Wrecsam – Bidston, gan gynnwys rhan o lwybr troed FP25, rhan o Gae OS Rhifau 4392 & 4787; i gyd yn eiddo i D. Connah (Plotiau 2/5, 2/5a a 2/5b).

Glaswelltir ar ochr orllewinol yr A494, 85m i'r de o reilffordd Wrecsam – Bidston, rhan o Gae OS Rhif 3804; i gyd yn eiddo i Mr. & Mrs. E. Williams (Plot 2/6).

Yr hawl i fynd ar drychfa rheilffordd Wrecsam - Bidston, ar ochr ddeheuol y trac rheilffordd i'r gorllewin o'r gefnffordd at yr holl ddibenion sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw pont i gario'r gefnffordd dros y rheilffordd Wrecsam - Bidston ac ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw llwybr troed newydd; yr hawl i fynd ar draciau gwaith i gyd yn rhan o reilffordd Wrecsam - Bidston, yn rhedeg gyfochrog â'r bont bresennol ac i'r dwyrain o'r bont bresennol, at yr holl ddibenion sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw'r

bont i gario'r gefnffordd dros y rheilffordd  
Wrecsam - Bidston ac ar gyfer adeiladu llwybr  
troed newydd; i gyd yn eiddo i Network Rail  
(Plotiau 3/1, 3/1a, 3/1b, 3/1c, 3/1d, 3/1e, 3/1f,  
3/1g, 3/1h, 3/1i, 3/1j a 3/1k).

Tŷ a gardd a elwir yn Rhif 33 Aston Mead;  
ffordd breifat, lle i droi, lleiniau gwair, llwybr  
troed a lle parcio a elwir yn Aston Mead ar  
ochr de ddwyreiniol y gefnffordd; tŷ a gardd a  
elwir yn Rhif 10 Lower Aston Hall Lane a rhan  
o hanner lled Lower Aston Hall Laen o flaen yr  
eiddo; tŷ a gardd a elwir yn Rhif 25 Aston  
Mead; tŷ a gardd a elwir yn Rhif 20 Aston  
Mead; tir âr, rhan o eiddo a elwir yn Morr  
Lane Farm, rhan o Gae OS Rhif 8733; tir âr,  
rhan o eiddo a elwir yn Morr Lane Farm a rhan  
o hanner lled Clay Hill Lane, rhan o Gae OS  
Rhif 0588; tai allan, cenelau, rhan o dir pori a  
rhan o wely nant a rhan o hanner lled Clay Hill  
Lane at eiddo a elwir yn Daisy Bank Farm,  
rhan o Gae OS Rhif 2675; ffermdy, tai allan,  
cenelau, rhan o dir pori a rhan o wely nant sy'n  
rhan o Gae OS Rhif 3979 sy'n rhan o drac  
mynediad, llwybr troed FP27 a throedbont, i  
gyd yn rhan o eiddo a elwir yn Daisy Bank  
Farm, i'r dwyrain o'r gefnffordd ac i'r de o  
Gyfnewidfa Queensferry; tir pori a rhan o Gae  
OS Rhif 3979 i gyd yn ffurfio rhan o'r eiddo a  
elwir yn Daisy Bank Farm, i'r dwyrain o'r  
gefnffordd ac i'r de o Gyfnewidfa Queensferry;  
tŷ, tai allan a gardd a elwir yn 2 Gladstone  
Cottages, oddi ar Gladstone Way; tŷ, tai allan  
a gardd a elwir yn 1 Gladstone Cottages, oddi  
ar Gladstone Way, mynedfa breifat i 1 & 2  
Gladstone Cottages, rhan o lwybr troed  
cyhoeddus FP27; tir pori sy'n rhan o eiddo a  
elwir yn Clay Hill Farm, rhan o fynedfa breifat  
i 1 a 2 Gladstone Way, rhan o Gae OS Rhif  
5175; tir pori yn rhan o Gae OS Rhif 4071 at  
yr eiddo a elwir yn Daisy Bank Farm; tir pori  
yn rhan o Gae OS Rhif 5175, eiddo a elwir yn  
Clay Hill Farm; tir pori yn rhan o eiddo a elwir  
yn Clay Hill Farm, rhan o hanner lled ffordd  
bengaead priffordd gyfagos oddi ar Gladstone  
Way; pob buddiant yn nhir pori sy'n rhan o  
Gae OS Rhif 3979 a rhan o lwybr troed FP27,  
i gyd yn ffurfio rhan o'r eiddo a elwir yn Daisy  
Bank Farm a thir pori sy'n rhan o Gae OS Rhif  
4071 yn ffurfio rhan o'r trac mynediad i'r  
eiddo a elwir yn Daisy Bank Farm; i gyd yn  
eiddo i Ymddiriedolwyr Stad Castell Penarlâg  
(Plotiau 3/3, 3/3a, 3/3b, 3/3c, 3/3d, 3/3e, 4/3,  
4/3a, 4/3b, 4/3c, 4/3d, 4/3e, 5/2, 5/2a, 5/2b,

5/2c, 5/2d, 5/2e, 5/2f, 5/2g, 5/2h, 5/2i, 5/2j,  
5/2k, 5/2l, 5/2m, 5/2n, 5/2o).

Tŷ a gardd a elwir yn Rhif 17 Aston Mead; i  
gyd yn eiddo i berchennog anhysbys (Plot 3/4).

Tŷ, gardd a pherllan sy'n rhan o Gae OS Rhif  
7425, yn ffurfio rhan o'r eiddo a elwir yn Rhif  
9 Lower Aston Hall Lane a rhan o hanner lled  
Lower Aston Hall Lane sydd o flaen yr eiddo;  
berllan yn ffurfio rhan o'r eiddo a elwir yn Rhif  
9 Lower Aston Hall Lane, rhan o Gae OS Rhif  
7425; i gyd yn eiddo i Mr. & Mrs. L. Hill  
(Plotiau 4/2 a 4/2a).

### **Yng Nghymuned West Saltney**

Pob buddiant ac eithrio'r rhannau sy'n eiddo i  
Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn:

y gefnffordd i'r gogledd ddwyrain o  
Gyfnwidfa Queensferry, hefyd yn cynnwys  
Tanlwybr Queensferry i'r gogledd o  
Gyfnwidfa Queensferry yn mynd o dan y bont  
rheilffordd bresennol Caer i Gaerdybi,  
troetffyrdd, lleiniau, ac ardaloedd wedi eu  
tirweddu; ardal arwyneb caled a ddefnyddir fel  
maes parcio i Safle Amwynder y Cyngor oddi  
ar Chester Road (South) ar ochr ddwyreiniol y  
gefnffordd; adeiladau ac iard gyfagos, eiddo  
cloi blaenorol ar gyfer atgyweirio cerbydau  
modur a rhan o hanner lled priffordd sy'n rhoi  
mynediad i Ddepo Cynnal a Chadw Cyngor Sir  
y Fflint ac Is-Orsaf Drydan i'r de o Chester  
Road (East) ac i'r dwyrain o'r gefnffordd; rhan  
o briffordd Chester Road (South); tŷ a gardd a  
elwir yn 2 Bridge Houses, a rhan o hanner lled  
priffordd sy'n rhoi mynediad i Ddepo Cynnal a  
Chadw Cyngor Sir y Fflint, sydd o flaen yr  
eiddo; tŷ a gardd a elwir yn 3 Bridge Houses a  
rhan o hanner lled y briffordd sy'n rhoi  
mynediad i Ddepo Cynnal a Chadw Cyngor Sir  
y Fflint, sydd o flaen yr eiddo; tŷ a gardd a  
elwir yn 4 Bridge Houses a rhan o hanner lled  
y briffordd sy'n ffordd fynediad i Ddepo  
Cynnal a Chadw Cyngor Sir y Fflint, sydd o  
flaen yr eiddo; y gefnffordd bresennol i'r  
gogledd o'r rheilffordd Caer i Gaerdybi ac i'r  
de o Afon Dyfrdwy; y gefnffordd bresennol i'r  
gogledd o Afon Dyfrdwy gan gynnwys  
tanffordd Foxes Lane: (Plotiau 5/1a, 5/1b,  
5/1c, 5/1d, 5/1e, 5/1f, 5/1g, 6/1 a 6/1a).



Gardd a elwir yn Dry Bridge Farm, rhan o hanner lled y briffordd sy'n rhoi mynediad i Ddepo Cynnal a Chadw Cyngor Sir y Fflint ac Is-Orsaf Drydan; rhan o drac garw ac ardal laswelltog ar ochr ddwyreiniol Gwaith Trin Carthion Queensferry rhwng Gwaith Carthion ac Ardal Ddiwydiannol Saltney a rhan o lwybrau troed FP3 a FP6; i gyd yn eiddo i Ymddiriedolwyr Stad Castell Penarlâg (Plotiau 5/2f, 5/2p a 7/2).

Ardal arwyneb caled yn Safle Amwynder y Cyngor oddi ar Chester Road (South) ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd; tŷ a gardd a elwir yn 1 Bridge Houses, rhan o hanner lled Chester Road (East) a rhan o hanner lled priffordd sy'n rhoi mynediad i Ddepo Cynnal a Chadw Cyngor Sir y Fflint sydd o flaen yr eiddo; adeiladau, arwyneb caled, maes parcio, storfa a rhan o'r briffordd sy'n rhoi mynediad a elwir i gyd yng Nghanolfan Cynnal a Chadw Cyngor Sir y Fflint; ardal arwyneb caled o Safle Amwynder y Cyngor oddi ar Chester Road (South) a ddefnyddir i gael mynediad i Queensferry Auto Repairs; priffordd sy'n rhoi mynediad i safle carafannau ac iard sgrap ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd rhwng Gwaith Trin Carthion Queensferry ac Afon Dyfrdwy a rhan o lwybr troed FP14; y briffordd sy'n rhoi mynediad i orsaf bwmpio bresennol a rhan o lwybr cyhoeddus FP7 i'r de o Afon Dyfrdwy ac i'r dwyrain o'r gefnffordd; y briffordd sy'n rhoi mynediad i Waith Carthion Queensferry oddi ar y gefnffordd a thir garw cyfagos; iard sgrap 120m i'r de o Afon Dyfrdwy ac i'r dwyrain o'r gefnffordd; rhan o briffordd sy'n rhoi mynediad i safle carafannau ac iard sgrap ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd rhwng Gwaith Trin Carthion Queensferry ac Afon Dyfrdwy a rhan o lwybr troed FP6; y briffordd sy'n rhoi mynediad i Waith Carthion Queensferry oddi ar y gefnffordd a thir garw cyfagos; iard sgrap 120m i'r de o Afon Dyfrdwy ac i'r dwyrain o'r gefnffordd; cyffordd y briffordd rhwng Chemistry Lane a Factory Road i'r dwyrain o Waith Carthion Queensferry ac i'r gogledd o'r rheilffordd Caer i Gaergybi; rhan o'r trac garw ac ardal laswelltog i'r dwyrain o Waith Trin Carthion Queensferry rhwng Gwaith Carthion ac Ardal Ddiwydiannol Saltney a rhan o lwybrau troed FP3 a FP6; rhan o iard sgrap a phriffordd sy'n rhoi mynediad i safle carafannau ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd rhwng Gwaith Trin Carthion Queensferry ac

Afon Dyfrdwy a rhan o lwybr troed FP6; iard sgrap 120m i'r de o Afon Dyfrdwy 140m oddi wrth y gefnffordd bresennol, i gyd yn eiddo i Gyngor Sir y Fflint (Plotiau 5/3, 5/3a, 5/3b, 5/3c, 6/3, 6/3a, 6/3b, 6/3c, 6/3d, 6/3e, 6/3f, 6/3g, 6/3h, 6/3i, 6/3j, 7/1, 7/1a, 7/1b a 7/1c)

Rhan o arwyneb caled Queensferry Auto Repairs a rhan o hanner lled Chester Road (East) a rhan o hanner lled y briffordd sy'n rhoi mynediad i Ddepo Cynnal a Chadw Cyngor Sir y Fflint ac Is-orsaf Drydan; i gyd yn eiddo i Mr. R. Spencer (Plot 5/4).

Tir pori i'r de ddwyrain o'r gefnffordd rhwng Chester Road (East) a rheilffordd Caer i Gaerdybi a rhan hanner lled o Chester Road (East) rhan o Gae OS Rhif 0304; cyffordd priffordd rhwng Chester Road (East) a Chester Road (South); i gyd yn eiddo i Stretton Estates Ltd (Plotiau 5/5 a 5/5a).

Llawr caled a ddefnyddir ar gyfer parcio ceir a storfa gan Ddepo Cynnal a Chadw Cyngor Sir y Fflint; i gyd yn eiddo i Owens Coming Building Products Ltd (Plot 5/6).

Yr hawl i fynd ar drac gwaith ac arglawdd y rheilffordd Caer i Gaerdybi ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd bresennol at yr holl ddibenion sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw pont i gario rheilffordd Caer i Gaerdybi dros y gefnffordd; i gyd yn eiddo i Network Rail (Plot 5/7).

Yr arglawdd sy'n rhan o'r llwybr cyhoeddus FP15 cyfagos i reilffordd Caer i Gaerdybi ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd; i gyd yn eiddo i berchennog anhysbys (Plot 5/8).

Ardal laswelltog a rhan o'r arwyneb caled sy'n rhan o'r eiddo a elwir yn Waith Trin Carthion Queensferry rhwng y gefnffordd a'r Gwaith Trin Carthion; ardal laswelltog sy'n rhan o Waith Trin Carthion Queensferry ac arwyneb caled rhwng y gefnffordd a'r Gwaith Carthion; i gyd yn eiddo i Dŵr Cymru Rhanbarth y Gogledd (Plot 5/9 a 6/2).

Tir garw a gorsaf bwmpio ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd ac i'r de o Afon Dyfrdwy; tir garw ac allfa i Afon Dyfrdwy ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd a rhan o lwybr troed FP7; gwely Afon Dyfrdwy i'r dwyrain o bont

bresennol y gefnffordd; yr hawl i fynd ar wely'r afon a glannau'r afon yn gyfagos i, a hyd at 40m i'r dwyrain, o bont bresennol yr Afon Dyfrdwy at yr holl ddibenion sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw pont newydd i gario'r gefnffordd newydd dros yr Afon Dyfrdwy; llwybr troed FP2 ar hyd glan ddwyreiniol yr Afon Dyfrdwy; i gyd yn eiddo i Asiantaeth yr Amgylchedd (Plotiau 6/4, 6/4a, 6/4b, 6/4c, 6/4d, 6/4e, 6/4f, 6/4g a 6/4h).

Lle parcio a storfa Haulage Company ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd ac i'r de o Afon Dyfrdwy; i gyd yn eiddo i J & M Garner (Haulage) Ltd (Plotiau 6/5, 6/5a, 6/5b, 6/5c a 6/5d).

**M D BURNELL**  
IS-ADRAN CYNLLUNIO A GWEINYDDU  
TRAFNIDIAETH

**LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL  
CYMRU**

**ISDDEDDFWRIAETH**

**200- Rhif**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a  
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL  
CYNULLIAD CENEDLAETHOL  
CYMRU  
(CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R  
DE O BENBEDW (A494) GWELLIANT  
DROME CORNER I EWLOE) 200-**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a elwir “yr awdurdod caffael” yn y Gorchymyn hwn) yn gwneud y Gorchymyn canlynol -

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240 a 246 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1) fel y'i hestynnwyd ac y'i hategwyd gan adran 250 o'r Ddeddf honno ac o dan adran 2, a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Caffael Tir 1981(2), a phob pŵer galluogi arall (3), trwy hyn yn cael ei awdurdodi i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 at bwrpas:

- (a) adeiladu'r gefnffordd gysylltu newydd a ffordd ymuno rhwng Cyfnewidfa Ewloe ac i'r gorllewin o Gyfnewidfa Parc Dewi Sant yng nghymuned Penarlâg, a lledu a gwella pont dros gwrs dŵr mordwyol rhwng Queensferry a Garden City yng nghymuned West Saltney, i gyd yn Sir y Fflint, mewn cysylltiad â gwella'r gefnffordd ac yn unol â'r Gorchymyn Ffordd Gysylltu a Ffordd Ymuno;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynediadau newydd i eiddo rhwng Drome Corner ac Ewloe yng nghymunedau Penarlâg a West Saltney yn Sir y Fflint yn unol â'r Gorchymyn Cilffyrdd;
- (c) gwella'r Gefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw yn y cymunedau a'r Sir rhagddywededig;
- (d) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad â gwella'r gefnffordd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gweithredu gwaith arall a grybwyllir uchod;
- (e) cael eu defnyddio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â gwella'r briffordd a gweithredu gwaith arall a grybwyllir uchod; a
- (f) lliniaru'r effeithiau negyddol y bydd y priffyrdd neu'r priffyrdd arfaethedig yn eu cael ar eu cyffiniau.

Mae copïau o'r Gorchymyn Ffordd Gysylltu a Ffordd Ymuno a'r Gorchymyn Cilffyrdd gyda'u mapiau cysylltiol wedi eu hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn Erthygl 5.

2. Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen gysylltiol ac sydd wedi ei amlinellu a'i ddangos gyda lliw pinc gydag ymyl coch ar y map ac mae'r hawliau newydd i'w prynu'n orfodol dros dir o dan y Gorchymyn hwn yn cael eu disgrifio yn yr Atodlen ac mae'r tir wedi ei ddangos gyda lliw glas ac ymyl coch ar y map dywededig.

3. Trwy hynny mae Rhannau II a III o Atodlen 2 i'r Ddeddf Caffael Tir 1981 yn cael eu hymgorffori yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i addasu fel bod unrhyw gyfeiriadau yn y Rhannau dywededig o'r Atodlen ddywededig i'r gwaith yn cael eu deall fel cyfeiriadau at y tir a awdurdodwyd i'w brynu ac unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w hadeiladu arno.

4. At bwrpas darpariaethau Atodlen 2 i'r Ddeddf Caffael Tir 1981, fel yr ymgorfforwyd hwy yn y Gorchymyn hwn, bydd y pellter rhagnodedig mewn perthynas ag unrhyw wythïen o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir wrth ymyl y gwaith sydd i'w adeiladu ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn bellter ar draws oddi wrth y gwaith dywededig ar bob ochr fel sy'n gyfartal ar bob pwynt ar hyd y gwaith dywededig i un hanner o ddyfnder yr wythïen o dan arwyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 metr pa un bynnag yw'r mwyaf.

5. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y map" - ("*the map*") yw'r map a farciwyd "Gorchymyn Prynu Gorfodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494) Gwelliant Drome Corner i Ewloe) 200-." a lofnodwyd gan swyddog o'r awdurdod caffael, wedi ei selio gyda sêl gorfforaethol yr awdurdod caffael a'i adneuo yn Uned Storïo ac Adnewyddu Cofnodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

ystyr "y gefnffordd" - ("*the trunk road*") yw'r Gefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o

Benbedw (A494);

ystyr “y Gorchymyn Ffordd Gysylltu a Ffordd Ymuno” - (“*the Connecting Road and Slip Road Order*”) yw’r Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe Ffordd Gysylltu a Ffordd Ymuno) 200-

ystyr “y Gorchymyn Cilffyrdd” – (“*the Side Roads Order*”) yw’r Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i Fan i’r Dde o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe Cilffyrdd) 200-.

6. Enw’r Gorchymyn yw Gorchymyn Prynu Gorfodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cefnffordd Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw (A494) Gwelliant Drome Corner i Ewloe) 200-  
.

MAE SÊL GORFFORAETHOL Y  
CYNULLIAD CENEDLAETHOL sydd wedi  
ei gosod yma wedi’i dilysu gan

Llofnodwyd gan swyddog Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru

Dyddiad 200

- (1) 1980 c.66
- (2) 1981 c.67
- (3) Trosglwyddwyd y swyddogaethau sy’n galluogi gwneud y Gorchymyn hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy erthygl 2 o, ac Atodlen 1 i, Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (S.I. 1999/672)

